# Iechyd a Diogelwch

## Adroddiad Blynyddol

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

2021/2022

## CRYNODEB O'R DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

| | | |
|---|---|---|
| **69%** (*Lefel cyfranogiad 164 allan o 238 o staff newydd*) | **CYNEFINO (IECHYD A DIOGELWCH) I STAFF NEWYDD** | **Y tu ôl i'r targed** |
| **DEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**  | **69%** Cwblhau Hyfforddiant a Hunanasesiad | **3.5% y tu ôl i'r targed perfformiad** |
| **DAMWEINIAU A ARWEINIODD AT ANAFIADAU I'R STAFF**  | **6.9** Damweiniau fesul bob 1000 o Weithwyr | **Yn dal yn is na chyfartaledd y Sector** |
|  | **CYFRADD ABSENOLDEB SALWCH Y STAFF** **3.9** Diwrnodau a gollwyd fesul gweithiwr Cyfwerth Amser Llawn | **Yn dal yn is na pherfformiad y Sector AU** |

**Cofiwch: Mae pandemig y coronafirws a'r gostyngiad yn ei sgil mewn gweithio ar y safle a'r lleihad mewn llawer o weithgareddau'n effeithio ar yr holl ddangosyddion perfformiad.**

**Mynegai** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| | Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb | |
| 1. | Crynodeb ynghylch COVID-19 | 2 |
| 2. | Polisïau a Dogfennau Allweddol Iechyd a Diogelwch | 3 |
| 3. | Archwiliadau, Perfformiad, Dadansoddi | 3 |
| 4. | Camau Gorfodi ac Ymweliadau Arolygu Statudol | 5 |
| 5. | Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch | 5 |
| 6. | Damweiniau a Digwyddiadau | 8 |
| 7. | Absenoldeb Salwch Ymysg Staff | 12 |
| 8. | Larymau Tân yn Canu | 17 |
| 9. | Achosion Sifil i Hawlio Iawndal (cysylltiedig ag iechyd a diogelwch) | 18 |
| 10. | Ystadegau'r Wefan | 18 |

## 1. CRYNODEB YNGHYLCH COVID-19

**Yn 2021/22 adroddwyd am 1,795 o achosion COVID-19 ymhlith y staff a'r myfyrwyr. Adroddwyd am 1,018 o ddiwrnodau absenoldeb salwch oherwydd COVID-19, a chofnododd 6 aelod o'r staff gyfnodau o absenoldeb hirdymor o ganlyniad.**

Ddechrau'r flwyddyn academaidd roedd llawer o reolaethau COVID-19 yn dal ar waith a bod heriau di-rif o hyd.

Mae'r Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau'n dal i arwain ar ymateb y Brifysgol i'r pandemig. Mae'n ceisio lleihau a lliniaru effeithiau andwyol posib y pandemig ar addysgu, ymchwil, a gweithgarwch ehangach y Brifysgol. Sicrhaodd y Grŵp Tasg hefyd ymateb priodol i bryderon y staff a'r myfyrwyr, newidiadau i ddeddfwriaeth frys y coronafeirws, dylanwadau lleol a chenedlaethol, a'r newid cyfeiriad gan gyrff y sector a'r llywodraeth a welwyd drwy gydol y cyfnod.

Yn gynnar yn y flwyddyn, dechreuodd Cymru ar ei thrawsnewid o'r amrywiol Lefelau Rhybudd i ddull newydd a fu'n fodd i'r Brifysgol gynnal llawer mwy o weithgareddau yn y cnawd. Yn achos Bangor, roedd hynny'n cynnwys datblygu dulliau addysgu grŵp a chlwstwr, ac ailgyflwyno mwy o addysgu yn y cnawd a oedd yn amhosibl yn ystod y flwyddyn flaenorol. Drwy'r cyfnod, bu'r Brifysgol yn flaenllaw ymhlith y sefydliadau Addysg Uwch. Bu'n cynnal addysg ac ymchwil yn y cnawd ar sail resymegol flaengar a oedd yn unol â'r 'Ap Covid/Cofnodi Presenoldeb' ardderchog a ddatblygwyd gan y Gwasanaethau Digidol. Roedd perthynas waith glos y Brifysgol â gwasanaethau Olrhain Cysylltiadau lleol a swyddogion llywodraeth leol yn enghraifft dda o'r cydweithio, a fu'n amlwg drwy gydol y pandemig. Am ran helaeth o flwyddyn academaidd 2021/22 roedd trefniadau COVID-19 yn cynnwys:

- Gweithgareddau addysgu yn y cnawd i hyd at **30** o fyfyrwyr yn y cnawd, heb gadw pellter cymdeithasol.
- Addysgu grwpiau o **31 - 100** yn y cnawd, gyda grwpiau cysylltiadau llai o faint â chyfeirnodau unigryw.
- Defnydd parhaus o'r Ap Cofrestru, a'i gwneud yn ofynnol i'r myfyrwyr gofnodi pa sesiynau yr oeddent yn eu mynychu, a pha grŵp cysylltiadau yr oeddent ynddo.
- Dal i sicrhau bod yr holl addysgu ar gael ar-lein, lle bo hynny'n ymarferol, er mwyn caniatáu i fyfyrwyr na allent fod yn bresennol yn y cnawd, oherwydd pryder am Covid neu risgiau eraill posib i iechyd.
- Gosod tua 200 o unedau hidlo aer HEPA a bron i 300 o fonitorau $CO_2$ i ddangos ansawdd yr aer, mewn mannau addysgu llai o faint, lle mae'r awyru'n llai effeithiol.
- Cynyddu capasiti bysiau mini a choetsis hyd at 50%, a chynyddu hynny eto hyd at 100% erbyn diwedd y flwyddyn.
- Y staff yn dychwelyd i swyddfeydd amlfeddiannaeth a aseswyd ymlaen llaw.
- Dechrau cynnal digwyddiadau yn y cnawd eto i fyfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr, hyd at **100** o gyfranogwyr yn y lle cyntaf.
- Roedd capasiti 'llogi' gofodau mawr y Brifysgol a chapasiti theatrau a sinema Pontio i ddechrau oddeutu 50% o'u capasiti arferol. Cynyddodd hynny mewn dim o dro hyd at 100% o gapasiti.
- Llacio cyfyngiadau teithio tramor.
- Parhawyd i adrodd am achosion positif o Covid ymhlith y Staff a'r Myfyrwyr ac Olrhain Cysylltiadau drwy gydol y broses, a hynny mewn aliniad clos â gwasanaethau olrhain cysylltiadau yr Awdurdodau Lleol ac yn Rhanbarthol.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, buom yn adolygu ac yn diwygio trefniadau Covid, a gwneud addasiadau i adlewyrchu'r realiti lleol, newidiadau yng ngofynion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru, datblygiadau yn y Sector, a chyfyngiadau teithio byd-eang oherwydd Covid.

Erbyn 28 Mai 2022 roedd teimlad bod pethau ar newid ac yn dychwelyd at y 'norm' fel yr oedd hi cyn y pandemig. Oherwydd y niferoedd a gawsai frechiadau a'r lleihad yn yr effeithiau llym ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, caniataodd Llywodraeth Cymru i'r Brifysgol ac addysgwyr eraill:

- Ddychwelyd at gapasiti 100% mewn ystafelloedd o'i gymharu â'r lefel capasiti cyn-Covid.
- Cael gwared ar y sgriniau Perspecs a fu'n amddiffyn rhag defnynnau o nifer o Dderbynfeydd a Mannau Cyhoeddus.
- Cael gwared ar lawer o'r arwyddion coronafeirws cyffredinol.
- Diddymu'r rheidrwydd i wisgo gorchuddion wyneb a datgan y caiff y myfyrwyr a'r staff wisgo gorchuddion wyneb os dymunant.
- Dileu'r cyfyngiadau a oedd yn weddill ar swyddfeydd sy'n cael eu rhannu;
- Datblygu protocolau COVID-19 newydd i gyfranogwyr ymchwil sydd mewn perygl iechyd uwch, gan ddychwelyd y pwyslais ar amddiffyn y cyfranogwyr ymchwil.

Drwy gydol y cyfnod ac o'r arwydd clir cyntaf y gallai fod bygythiad mawr byd-eang o glefyd heintus, gweithredodd y Brifysgol o dan Asesiad Risg manwl o'r Coronafeirws. Aeth yr asesiad trwy sawl fersiwn a bellach trodd yn Asesiad Risg Sefydliadol cyffredinol ar gyfer Clefydau Heintus.

Rhaid canmol ymdrechion, cefnogaeth a phroffesiynoldeb y staff a'r myfyrwyr yn ystod y cyfnod.

## 2. POLISÏAU A DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH ALLWEDDOL

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r dogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol 'allweddol' newydd, a ddiwygiwyd ac a ddiddymwyd, ac a gyflwynwyd, eu dileu neu'u haddasu yn ystod y flwyddyn.

### • POLISÏAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd dim polisïau newydd yn 2021/22. Adolygwyd y polisïau canlynol yn ystod y flwyddyn, ac ni ddyrannwyd dim cyfrifoldebau nac atebolrwydd newydd:

- Gweithrediadau Dronau (Defnydd Awyrennau Di-griw Bach [SUA] gynt).
- Defnyddio Systemau Gwasgedd yn Ddiogel.
- Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd
- Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol:
- Defnyddio Laser yn Ddiogel
- Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau
- Mamau Newydd a Beichiog

### • POLISÏAU A DDIDDYMWYD

Ni chafodd dim polisïau iechyd a diogelwch eu diddymu yn 2021/22.

## 3. ARCHWILIADAU, PERFFORMIAD, DADANSODDI

Crynodeb o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau sefydliadol, y Coleg a Phroffesiynol ac agweddau rheoli risg.

### • ARCHWILIADAU AC AROLYGIADAU

Unwaith eto, cyfyngwyd yr archwiliadau ffurfiol i reoli agweddau a risgiau COVID-19, gan bwysleisio ymdrechion a welwyd ledled y Brifysgol i ddarparu addysgu, ymchwil a phrofiadau o safon yn y cnawd. Bydd cylch archwilio iechyd a diogelwch diwygiedig yn ailddechrau'r flwyddyn nesaf.

Cynhaliwyd nifer o arolygiadau iechyd a diogelwch ffurfiol o weithgareddau a meysydd gwaith yn ystod 2021/22, ac ni fu canfyddiadau andwyol sylweddol. Canolbwyntiodd yr arolygiadau hynny ar gefnogaeth i wella ansawdd a pherfformiad mewn iechyd a diogelwch, ac i ddeall yn well yr heriau y mae cydweithwyr yn eu hwynebu.

### • ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

**Yn ystod y flwyddyn ni fu adolygu ar** berfformiad y Brifysgol yn ôl gofynion allweddol "Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch UCEA/USHA mewn Sefydliadau Addysg Uwch" a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ei hun. Mae'n debyg y bydd y mesur hwn yn dychwelyd yn 2022/23.

- **AR LEFEL Y BRIFYSGOL: DANGOSYDDION RHEOLI RISG**

**Ni chafodd Dangosyddion Risg Thematig eu hadolygu yn ystod y flwyddyn[1].** Bydd yr arfer o ailwerthuso ac adrodd ar ganran o themâu risg corfforaethol bob blwyddyn yn ailddechrau yn 2022/23. Caiff yr adran 'thematig' honno ei chryfhau hefyd dros y blynyddoedd nesaf a bydd adroddiadau perfformiad manylach ynglŷn â meysydd risg a reolir gan Wasanaethau'r Campws, gan gynnwys clwy’r llengfilwyr, diogelwch tân, diogelwch seilwaith trydanol a rheoli risg asbestos. Mae'r mesurau perfformiad a chydymffurfiaeth hynny wrthi’n cael eu gwella a'u datblygu ar hyn o bryd.

- **CRYNODEB PERFFORMIAD BLYNYDDOL COLEGAU/GWASANAETHAU (HUNANWERTHUSO)**

| | |
|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |

Yn sgil gohirio'r 'hunanwerthusiad blynyddol' yn ystod y pandemig, gofynnwyd eto i bob Coleg, a Gwasanaeth Proffesiynol, ynghyd ag Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Reolaeth, adrodd ynghylch eu trefniadau rheoli iechyd a diogelwch.

| Eitem | % | Naratif |
|---|---|---|
| Dogfennaeth: **Polisi** | **85%** | ○ Polisi IaD = 11 OES (3 Choleg/8 Gwasanaeth)<br>○ 2 Nid oes gan y Gwas. Proffesiynol bolisi (1 polisi rhannol)<br>*<u>Noder</u>: rhai Gwasanaethau’n gweithredu fersiynau 'lluosog' i’r adrannau 'cyn ad-drefnu' a unodd bellach.* |
| Dogfennaeth: **Asesiad Risg Cyffredinol:** | **77%** | ○ Asesiad Risg Cyffredinol = 10 OES (3 Choleg / 7 Gwasanaeth)<br>○ Diweddarwyd 7 asesiad risg cyffredinol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.<br>○ 3 Nid oes gan y Gwas. Proffesiynol Asesiadau Risg Cyffredinol.<br>*Noder: mae rhai’n gweithredu fersiynau 'lluosog' i’r adrannau 'cyn ad-drefnu' a unodd bellach.* |
| Deon/Cyfarwyddwr yn cwrdd â Swyddog/ Cydlynydd IaD | **85%** | 1 = wythnosol, 1 = dwywaith yr wythnos, 2 = misol, 3 = chwarterol, 4 = yn ôl yr angen. |
| Pwyllgor / Corff Iechyd a Diogelwch | **92%** | OES = 12<br>○ Mae gan bob Coleg Bwyllgor/Corff – a’r Deon yn cadeirio holl Bwyllgorau Iechyd a Diogelwch y Coleg.<br>○ 1 Gwasanaeth = Cadeirydd Pennaeth Adran yn cadeirio, 2 Wasanaeth = Allanol yn cadeirio.<br>○ 6 Mae gan y gwasanaeth ddulliau ffurfiol eraill i drafod IaD.<br>○ 1 Nid oes gan y gwasanaeth fecanwaith i drafod materion IaD. |
| Ymgynghori â’r Staff | **100%** | Mae pob un yn datgan eu bod yn ymgynghori â’r staff ar faterion IaD, lle bo'n berthnasol. |
| Archwiliadau Iechyd a Diogelwch | **92%** | Mae pob Coleg a 9 Gwasanaeth yn cadarnhau bod Archwiliadau Iechyd a Diogelwch wedi eu cynnal.<br>○ Pob Coleg a 7 Gwasanaeth yn cadarnhau bod Deon / Cyfarwyddwr yn cymryd rhan mewn Arolygiadau (o leiaf unwaith y flwyddyn). |
| Cedwir cofnodion o Sesiynau Cynefino Iechyd a Diogelwch Staff Newydd | **100%** | ○ Dywed pob un bod Sesiynau Cynefino IaD i staff newydd:<br>*Cofiwch: mae anawsterau'n parhau gyda chofnodi hyfforddiant yn ganolog, a drwyddi draw, nid oedd nifer y staff newydd a gofnodwyd gan yr AD yn cyfateb i'r ddarpariaeth hyfforddiant leol a ddatganwyd. Dylai system cadw cofnodion newydd yr AD helpu datrys hynny.* |
| Diogelwch rhag Tân: Cyfyngiad ar Symudedd | **92%** | Cadarnhaodd y Colegau a’r Gwasanaethau a ymatebodd i’r cwestiwn fod ganddynt drefniadau i sicrhau bod pobl y mae cyfyngiadau symudedd arnynt yn cael gwybod am y trefniadau ar gyfer lloches diogel a gwacáu. |
| Adrodd am Ddamweiniau a Digwyddiadau | **100%** | Pob un yn dweud bod ganddynt drefniadau i sicrhau bod damweiniau a |

[1] Asesiadau risg bwrdd gwaith o tua 40 o themâu risg allweddol y Brifysgol

| | | |
|---|---|---|
| | | digwyddiadau'n cael eu hadrodd a'u cofnodi. |
| Diogelwch Gyrwyr | **85%** | Gwiriadau Trwyddedau Gyrru / Awdurdodiadau Staff<br>○ 1 Mae'r Coleg yn nodi bod ganddo weithdrefnau cadarn.<br>○ 2 Mae'r Colegau wrthi'n gwella eu trefniadau.<br>○ Mae pob Gwasanaeth yn cadarnhau bod ganddynt drefniadau i wirio trwyddedau gyrwyr. |

Dangosodd Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Reolaeth hefyd lefel uchel iawn o berfformiad yn ôl y 18 maes craidd a fesurwyd.

- **PERYGLON BIOLEGOL**

Mae Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol y Brifysgol yn dal i oruchwylio agweddau iechyd a diogelwch ar waith Bio a GM. Bu gwaith 'bio' perygl uwch y Brifysgol o dan gyfyngiad yn ystod y pandemig, ac mae arwyddion y bydd y gweithgarwch a'r gweithgareddau arferol yn dychwelyd yn 2022/23.

Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau bioberygl sylweddol yn ystod y flwyddyn ac ni ddangosodd arolygiadau ac ymweliadau unrhyw agweddau o bryder uwch.

- **YMBELYDREDD**

Mae Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd y Brifysgol yn dal i oruchwylio gwaith ymbelydredd gwyddonol, defnydd pelydrau-X a defnydd laserau pŵer uwch.

Oherwydd y gwaith mae'r Brifysgol yn ei wneud gydag ymbelydredd, mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (IRR), ynghyd â deddfwriaeth fwy penodol arall sy'n ymwneud â defnydd meddygol/dynol, yn berthnasol.

Ymwelodd Ymgynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd (RPA) allanol arbenigol y Brifysgol â phob maes perthnasol (nad yw'n ymwneud â laser) yn ystod y flwyddyn i gadarnhau bod y gofynion deddfwriaethol a'r arferion da yn cael eu bodloni. Nid oedd dim canfyddiadau andwyol arwyddocaol.

Hysbyswyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Heddlu Gogledd Cymru bod y Brifysgol bellach wedi cael gwared ar ei hunig ffynhonnell ymbelydrol perygl uwch hysbysadwy. Risg isel iawn sydd i'r deunydd hwnnw'n weithredol, er bod gofynion deddfwriaethol manylach a chynhwysfawr yn berthnasol i'w fath ac i'w weithgarwch ymbelydrol. O'i waredu lleihau a wnaeth aramlygiad risg y sefydliadau [o ran deunyddiau ymbelydrol].

Mae llwyddiant parhaus ymchwil arbenigol y Brifysgol yn golygu mai cynyddu y mae'r gwaith gyda deunyddiau ymbelydrol, ac mae hynny'n debygol o ehangu ymhellach dros y blynyddoedd sydd i ddod. I gefnogi hynny, mae goruchwyliaeth a chefnogaeth ychwanegol ar gael gan Ymgynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a swyddogion y Brifysgol.

Mae Swyddog Diogelwch Laser (LSO) y Brifysgol yn goruchwylio holl agweddau iechyd a diogelwch y defnydd ar laserau Dosbarth 3b a Dosbarth 4. Parhaodd y Swyddog Diogelwch Laser â'r gwaith goruchwylio trwy gydol y pandemig ac ni chodwyd dim materion o bwys.

## 4. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd **dim** camau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2021/22.

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

**Ni chychwynnwyd** ymchwiliadau HSE am y cyfnod hwn a dim ymholiadau ffurfiol.

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):

Ymwelodd Arolygydd CNC â meysydd ymchwil perthnasol sy'n defnyddio rhai deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio, i gadarnhau bod rheolaeth briodol ar risgiau amgylcheddol. Ni nodwyd dim pryderon sylweddol, ac roedd y cyfleusterau a'r trefniadau rheoli'n cael y dangosydd perfformiad gorau o ran cydymffurfio.

## 5. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

Yn ystod y flwyddyn academaidd bu cynnydd yn y ddarpariaeth hyfforddiant iechyd a diogelwch 'yn y

cnawd', a pharhad o'r defnydd o hyfforddiant ar-lein ar gyfer staff newydd a defnyddwyr cyfrifiaduron.

Yn ystod 2021/22 cafodd y cyrsiau canlynol eu darparu neu'u hwyluso gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch canolog.

| Blwyddyn | Nifer y Cyrsiau / Sesiynau | Staff a Myfyrwyr Ôl-radd |
|---|---|---|
| **2021/22** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **408** |
| | *31 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *86* |
| | *Cyfarpar Sgriniau Arddangos (DSE) ar-lein* | *158* |
| | Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein | *164* |
| **2020/21** | **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | **2895** |
| | *8 o ddigwyddiadau hyfforddi yn y cnawd* | *25* |
| | *Offer Sgriniau Arddangos (OSA) ar-lein* | *154* |
| | *Sesiynau Cynefino (Iechyd a Diogelwch) i Staff Newydd ar-lein* | *125* |
| | *Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Covid ar-lein* | *2594* |
| *Nid yw'r data hanesyddol yn cynnwys hyfforddiant ar-lein* | | |
| 2019/20 | 45 | 221 |
| 2018/19 | 45 | 291 |
| 2017/18 | 39 | 166 |
| 2016/17 | 67 | 299 |
| 2015/16 | 56 | 309[2] |
| 2014 | 100 | 579 |
| 2013 | 85 | 583 |
| 2012 | 106 | 719 |

Nid oes cofnodion (ar gael yn ganolog) o'r hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarperir yn lleol gan Golegau a Gwasanaethau, neu a geir trwy ddarparwyr allanol.

- **SESIYNAU CYNEFINO CYFFREDINOL I'R STAFF**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

*Mae Sesiynau Cynefino Cyffredinol Y Staff yn ddangosydd perfformiad allweddol o ran Iechyd a Diogelwch Sefydliadol.*

**Targed:** 90% oedd targed 2020/21 a methwyd â'i gyrraedd. Cwblhaodd **164** allan o **238** o'r staff newydd (*fel bo'n berthnasol*) oedd o dan gontract Hyfforddiant Cynefino Cyffredinol Staff y Brifysgol. *Bydd targed 2022/2023 yn aros ar 90%.*

Yn hanesyddol, byddai aelodau newydd o'r staff yn cael gwahoddiad i Sesiwn Gynefino gyffredinol i'r staff yn y cnawd a byddent yn cael gwybodaeth sefydliadol am iechyd, diogelwch a diogelwch tân. Roedd y cyfraddau presenoldeb yn y sesiynau, o'u cymharu â nifer y Staff Newydd (i'r Brifysgol) a benodwyd, yn sail i fesuriad DPA (a dargedid).

Cynhaliwyd Sesiwn Gynefino'r Staff Newydd yn gyfan gwbl ar-lein drwy gydol 2021/22, a'r Adnoddau Dynol yn gyfrifol am y broses hysbysu a monitro.

| 90% oedd targed 2020/21 | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran y staff newydd (a wahoddwyd) a aeth i sesiwn gynefino Iechyd a Diogelwch ganolog y Brifysgol[3] | **68.91%** | Gostyngiad o **6.28%** ar berfformiad 20/21 |

***Cofiwch:*** *Ni chaiff sesiynau cynefino mewnol ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch (ar lefel Ysgol/Gwasanaethau/Grŵp Ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol.*

- **HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

Mae hyfforddiant i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (Offer Sgrin Arddangos) yn Ddangosydd Perfformiad

[2]Yn 2015/16 aeth yr Hyfforddiant OSA/Defnyddwyr Cyfrifiaduron ar-lein ac ni chaiff ei gynnig bellach fel cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb e.e. roedd 137 o gyfranogwyr yn yr hyfforddiant yn 2014


[3] Nid yw'r ffigur yn cynnwys rhai staff llaw, staff a gaiff eu talu fesul awr a staff achlysurol sy'n derbyn sesiynau cynefino Iechyd a Diogelwch

Allweddol sefydliadol. Mae hyfforddiant o'r fath yn ofynnol dan y Rheoliadau Cyfarpar Sgrin Arddangos.

**Cofiwch**: *Effeithiodd Covid a 'gweithio gartref' yn ddirfawr ar y DPA hwn gan fod y dull asesu a ddefnyddid ar y pryd yn ymwneud â risg yn y gweithle, gyda chanllawiau ar gyfer gweithio gartref.*

| 85% oedd targed 2021/22 o'r holl Ddefnyddwyr Offer Sgrin Arddangos | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/ GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran Defnyddwyr Cyfrifiaduron (OSA) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein a'r hunanasesiad | **69.3%** | **Tueddiad am i lawr**<br>---<br>85% o ddefnyddwyr DSE gydag asesiadau diweddar yw targed 2022/23 o hyd. |

Yn 2021/22, bu i **158** aelod o'r staff gwblhau'r hyfforddiant ar-lein i Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron (gan ddod â'r cyfanswm i 69.3% o'r Defnyddwyr Cyfrifiaduron yr amcangyfrifir iddynt gwblhau'r hyfforddiant yn ystod y chwe blynedd diwethaf). Mae'r ffigwr hwn yn ostyngiad o gyfanswm y llynedd o 75.21% ac yn is na'r targed o 85%.




Nodwyd y gostyngiad yn nifer y staff sy'n dilyn hyfforddiant Cyfarpar Sgrin Arddangos. Caiff yr hyfforddiant ei hyrwyddo'n ychwanegol 2022/23.

Mae'r tabl isod yn dangos % y defnyddwyr cyfrifiaduron a gwblhaodd yr hunanasesiadau (y gyfradd gwblhau) ymhob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol.[4]

| Coleg/Gwasanaeth | % OSA |
|---|---|
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | 69% |
| Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | 60% |
| Coleg Gwyddorau Dynol | 57% |
| Canolfan Bedwyr | 67% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 64% |
| Y Gwasanaethau Digidol | 93% |
| Gwasanaethau Cyllid | 91% |
| Adnoddau Dynol | 88% |
| Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio | 75% |
| Gwasanaethau Campws | 92% |
| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr | 88% |
| Undeb y Myfyrwyr | 65% |

- **CYMHWYSEDD**

**Y Lefel Weithredol** Rhagwelir darparu hyfforddiant Gweithredol yn 2022/23. Cafodd ei ohirio ddwywaith oherwydd y pandemig.

**Lefel y Deon a'r Cyfarwyddwr**: Caiff y lefel hon o reolaeth ei hailwerthuso i gadarnhau'r disgwyliadau am lefel hyfforddiant eu rolau.

**Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch** Cafodd lefel hyfforddiant 'IOSH Rheoli'n Ddiogel' neu 'gwrs pwrpasol' ei sefydlu i bob Gwasanaeth Proffesiynol, gan ddibynnu ar eu proffil risg.

| | Lefel Cymhwysedd a Gyflawnwyd |
|---|---|
| Colegau (3) | **100%** |
| Gwasanaethau Proffesiynol (8) | **50%**<br>*Cofiwch: **3** (37.5%) Penododd y Gwasanaethau Proffesiynol Gydlynydd newydd 'yn ystod y flwyddyn' na chawsai hyfforddiant erbyn y pryd hynny.*<br>***1** Nid yw'r gwasanaeth wedi penodi Cydlynydd.* |

[4] Mae'r data hwn yn seiliedig ar y staff a oedd yn gyflogedig ar 29 Gorffennaf 2022


## 6. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Cynyddodd cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn 2021/22 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd disgwyl y cynnydd hwn wrth i gyfyngiadau Covid godi, gan arwain at fwy o weithgareddau'n cael eu cynnal wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Yn ystod y flwyddyn academaidd cafwyd **125** o adroddiadau o ddigwyddiadau, a oedd yn fwy na'r 77 a gafwyd yn 20/21 yn ystod cyfnod y pandemig a'i gyfytngiadau. Er mwyn rhoi cyd-destun gwell, mae'r **125** o adroddiadau a gafwyd yn 2021/22 yn cymharu'n ffafriol â'r **230** a dderbyniwyd, cyn y pandemig, yn 2018/19. Roedd llawer o'r adroddiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â damweiniau a fu bron â digwydd a sefyllfaoedd/arferion a allai fod yn anniogel.


Yn 2021/22 roedd **26** o'r adroddiadau'n ymwneud ag 'anaf' i staff, myfyrwyr, ymwelwyr awdurdodedig (nid chwaraeon), roedd **88** yn ymwneud â digwyddiadau na achosodd anafiadau (a fu bron â digwydd, sefyllfa beryglus neu arferion anniogel) ac roedd yr **11** arall yn adroddiadau am ddigwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a chonfylsiynau).




- **ANAFIADAU-DAMWEINIAU I STAFF A MYFYRWYR**

Nifer yr anafiadau-damweiniau i Staff a Myfyrwyr yn is na'r lefelau cyn y pandemig, sy'n adlewyrchu cyfnod pan oedd rhai gweithgareddau'n dal i fod o dan gyfyngiad.

<u>Anafiadau i Staff a Myfyrwyr</u>




Yn 2020/21, **18** oedd nifer y damweiniau yr adroddwyd amdanynt ynglŷn â <u>Staff a Myfyrwyr</u> a achosodd anaf o ganlyniad i'w gwaith neu eu hastudiaethau yn y Brifysgol neu a ddigwyddodd yn y Brifysgol *(26 yn 20/21)*. O'r rheini, roedd **14** (*19 yn 20/21*) yn ddamweiniau a oedd yn ymwneud â'r Staff a **4** (*7 yn 20/21*) yn ymwneud â Myfyrwyr.
Yn ychwanegol at adroddiadau o anafiadau-damweiniau i Staff/Myfyrwyr, cafwyd **8** yn rhagor (*3 yn 20/21*) o adroddiadau am Ddamweiniau/ Anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr. Mân ei natur oedd pob un.

- **ANAFIADAU PENODOL (DIFRIFOL)**

Doedd dim "anafiadau penodol" (fel y'u diffinnir) yn ystod y flwyddyn.

*Byddai'r adran hon yn cynnwys torasgwrn, sgaldio sydd angen triniaeth yn yr ysbyty, colli ymwybyddiaeth, llosgiadau difrifol, ac ati.*


- **CYFRADD Y DAMWEINIAU-ANAFIADAU (fesul 1000 mewn Risg)**

**<u>Staff</u>**
Cymhareb y damweiniau a achosodd anaf i'r staff yn 2020/21 oedd **6.9** o ddamweiniau i bob 1,000 o aelodau o'r staff[5], gostyngiad o'r **9.6/**1,000 a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Cyfradd Genedlaethol 2021/22 oedd **13.85**/1000 *(cyfrif pennau).*

[5]Ar sail 2,041 o aelodau o Staff yn ystod y flwyddyn

Anafiadau-Damweiniau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 **o'r STAFF** (2005 – 2021/22)





| 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22.4 | 16.5 | 22 | 21 | 11.5 | 9.6 | 6.9 |
| 23.48 | 25 | 23.64 | 21.05 | 14.62 | 10 | 13.85 |

**Myfyrwyr**

Yn 2020/21, bu **4** (7 *yn 20/21*) o ddamweiniau-anafiadau i fyfyrwyr yn uniongyrchol o ganlyniad i'w hastudiaethau, neu weithgarwch yn y Brifysgol. Yn dangos cymhareb o **0.3** damwain fesul pob 1,000 o fyfyrwyr[6].

Y Gyfradd Genedlaethol yn 2021/22 oedd **2/1000**.

Anafiadau-Damweiniau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 **O FYFYRWYR** (2005 – 2021/22)




| 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.4 | 2.4 | 1.5 | 1.3 | 0.6 | 0.7 | 0.3 |
| 2.6 | 2.7 | 2.6 | 2.9 | 1.83 | 1.27 | 2 |

- **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

Yn 2020/21 bu **1** Ddamwain / Digwyddiad adroddadwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae hynny'n cyfateb i **0.08/1000** o fyfyrwyr. **0.05/1000** oedd cyfradd RIDDOR Myfyrwyr y Sector AU yn 2021/22.

Roedd yr 1 digwyddiad hwnnw'n ymwneud â myfyriwr a lithrodd ar risiau allanol ac a oedd angen triniaeth yn yr ysbyty.

'Sero' yw Cyfradd RIDDOR **Staff** Prifysgol Bangor am eleni. **0.5/1000** oedd y gyfradd yn 2020/21. **0.86/1000 oedd** cyfradd y Sector AU o ran y Staff yn 2021/22 *(CALl addasedig)*.

Yn hanesyddol mae cyfraddau RIDDOR y Brifysgol yn amrywio'n fawr bob blwyddyn fel y gwelwn ni isod:


| Blwyddyn | Staff | Myfyrwyr | Ymwelwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 0 | 1 | 0 | **1** |
| 2020/21 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2019/20 | 1 | 0 | 0 | **1** |
| 2018/19 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2017/18 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| 2016/17 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |

Nid oedd **dim** Afiechydon Galwedigaethol na Digwyddiadau Peryglus i adrodd yn eu cylch yn 2021/22.

- **ACHOSION ANAFIADAU/DAMWEINIAU (pob damwain)**


Roedd mwyafrif y **18** o ddamweiniau-anafiadau yn ymwneud naill ai â chodi a chario (8 = 44%), rhywun yn cael ei daro gan rywbeth a oedd yn symud/syrthio (3 = 17%); rhywun yn taro rhywbeth sefydlog (2 = 11%) neu lithro, baglu neu godwm (4 = 22%); arall (1 = 6%).

Yn seiliedig ar 13,130 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I'R STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Roedd dau ddigwyddiad a achosodd i staff golli amser o'r gwaith yn 2021/22.




Roedd 1 digwyddiad a achosodd i'r staff golli amser sef Cynorthwyydd Meithrin a gafodd anaf cyhyrysgerbydol, a'r ail i aelod o'r Tîm Domestig a drodd ei bigwrn.


- **DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON**

Cafwyd **69** o adroddiadau am ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel mewn rhai chwaraeon. Mae'n gynnydd sylweddol ar 9 yn 2020/21 ac roedd i'w ddisgwyl, a gweithgareddau chwaraeon yn ailddechrau yn sgil cyfyngiadau'r pandemig pan gafodd y rhan fwyaf o chwaraeon cyswllt agos eu hatal.

- **DIGWYDDIADAU DRAMOR A THEITHIO DRAMOR**


Roedd llai o deithio tramor ym mlwyddyn academaidd 2021/22, a chyfyngiadau teithio COVID-19 ar waith o hyd mewn sawl rhan o'r byd am y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd hwn.

Adroddir i'r Staff a'r Myfyrwyr ymgymryd â **384** o deithiau tramor a oedd yn ymwneud â'r Brifysgol yn ystod y flwyddyn, cynnydd mawr ar y flwyddyn flaenorol ac, fel y nodir, yn sylweddol is na'r lefelau cyn y pandemig: gostyngiad oddeutu 75% o'i gymharu â 2018/2019, sef y flwyddyn academaidd gyflawn ddiwethaf heb ei heffeithio gan gyfyngiadau teithio'r Coronafeirws.




Gwnaed 7 o hawliadau 'yswiriant' am deithiau yn 2021/22, sef:

- 3 yn Gostau Meddygol: 2 oherwydd salwch ac 1 oherwydd triniaeth am anaf, a ddioddefwyd cyn teithio o'r Deyrnas Unedig – *nid oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd y Brifysgol*.
- Roedd 3 hawliad yswiriant yn gysylltiedig â lladrad / colli eitemau. Roedd un o'r rheini'n cyfeirio at babell a gafodd ei difrodi mewn storm. Roedd angen un yn ei lle.
- 1 yn ymwneud â mater personol.




Ni fu dim anafiadau na salwch sylweddol o ganlyniad i deithiau tramor a oedd yn ymwneud â'r Brifysgol.

- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU**

Cerbydau Llogi'r Brifysgol (craidd).

Caiff yr agwedd hon ar ddefnydd cerbydau ei gwerthuso fel dangosydd risg ar gyfer 'gyrru achlysurol', yn bennaf ar deithiau dwyffordd mwy na 100 milltir.

Yn ystod 2021/22, ac o ddefnyddio data gan y darparwr cerbydau llog craidd, cafwyd **290** o achosion o logi ceir neilltuol dros gyfanswm o **741** o ddiwrnodau. Llai o dipyn na chyn y pandemig. *Nid yw'r data hwn yn cynnwys y Grŵp Ymchwil COVID*.

**93,753** milltiroedd oedd cyfanswm y pellter a deithiwyd [7]. *Yn y flwyddyn lawn olaf cyn y pandemig (2017/18) cofnodwyd **255,090** o filltiroedd a deithiwyd gan gerbydau llog.*

Yn y cyfnod hwn, gwnaed **11** o hawliadau yswiriant oherwydd digwyddiad a oedd yn ymwneud â cherbydau llog. Roedd **4** o'r digwyddiadau'n ymwneud â Grŵp Ymchwil COVID, a adroddai am fân ddigwyddiadau fel 'taro'r wal wrth symud car'. Roedd y **7** digwyddiad arall yn ymwneud â llogi cyffredinol gan Ysgolion a Gwasanaethau'r Brifysgol ac, unwaith eto, roedd y rheini'n ymwneud â mân ddifrod: er enghraifft, torri bympyr, torri drych ochr, cerbyd yn cael ei ddifrodi gan eraill.

Ni anafwyd neb o ganlyniad i'r digwyddiadau hynny ac ni adroddwyd am unrhyw anaf arall a ddigwyddodd oherwydd teithio gyda cherbydau llogi ar fusnes y Brifysgol.

| Cyfradd y Digwyddiadau'n ymwneud â Cherbydau[8] | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2016/17** | | **2017/18** | | **2021/22** | |
| Cyfanswm y Diwrnodau | Cyfanswm y Milltiroedd | Cyfanswm y Diwrnodau | Cyfanswm y Milltiroedd | Cyfanswm y Diwrnodau | Cyfanswm y Milltiroedd |
| 1,686 | 175,701 | 1,810 | 255,090 | 741 | 93,753 |
| Gan gynnwys/Diwrnodau | Gan gynnwys/ Milltiroedd | Gan gynnwys/Diwrnodau | Gan gynnwys/ Milltiroedd | Gan gynnwys/Diwrnodau | Gan gynnwys/ Milltiroedd |
| 3.6/ 1000 o ddiwrnodau | 3.4 /100 mil o filltiroedd | 4.4 / 1000 o ddiwrnodau | 3.18 / 100 mil o filltiroedd | 9.4 / 1000 o ddiwrnodau | 7.5/ 100 mil o filltiroedd |
| CYFANSWM YR ANAFIADAU | | CYFANSWM YR ANAFIADAU | | CYFANSWM YR ANAFIADAU | |
| 0 | | 0 | | 0 | |
| **Noder**: 2019/20 a 2020/21 oedd blynyddoedd y Coronafeirws ac felly ni chynhwyswyd meincnod oherwydd i ddefnydd cerbydau llog leihau'n sylweddol. | | | | | |

Fflyd Cerbydau'r Brifysgol

Gwasanaethau'r Campws yw'r gweithredwr cerbydau unigol mwyaf yn y Brifysgol, ac yn 2021/22 bu'n gweithredu 33 o gerbydau ffordd, a gweddill y Colegau a'r Gwasanaethau'n rheoli 10 o gerbydau eraill.

| Cyfanswm milltiroedd |
|---|
| 153,419 |
| Inc./ milltiroedd |
| 1.3/100k milltiroedd |

Teithiodd y **43** o Gerbydau yr oedd y Brifysgol yn berchen arnynt/ar brydles **153,419** o filltiroedd yn ystod y flwyddyn. *Dyma'r tro cyntaf y mae union Filltiroedd y Fflyd ar gael.*

[7] Data a ddarparwyd gan brif gyflenwr ceir llog y Brifysgol, Aberconwy Car Hire

[8] O ddefnyddio cyfanswm y digwyddiadau (7) fesul **diwrnodau llogi a milltiredd** ar gyfer un darparwr cerbyd (llogi), nid yw'n cynnwys Grŵp Ymchwil COVID. Nid oedd cofnodion milltiroedd cywir ar gael ar gyfer y Grŵp COVID am y cyfnod hwn o 12 mis, ac felly ni chafodd eu 4 digwyddiad eu cynnwys yn y gyfradd

Adroddwyd am 2 achos o ddifrod i gerbydau yn ystod y flwyddyn a gwnaed 2 hawliad yswiriant. 1 am dolc i ffenest flaen car, a'r llall yn ymwneud â ddifrod i'r bympar cefn. Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau.

<u>Cerbydau Undeb y Myfyrwyr</u>
Mae Undeb y Myfyrwyr yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'i yswirwyr ei hun. Mae'r Undeb yn 'berchen/prydlesu' 6 cherbyd: sef 4 bws mini, 1 MPV ac 1 fan transit.


Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau mewn damweiniau ffyrdd ac ni wnaed dim hawliadau yswiriant.

Nid oedd cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd ar gyfer cerbydau'r Undeb yn 2021/22 ar gael ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn. *Cyn hynny, yn 2020/21, teithiodd cerbydau Undeb y Myfyrwyr 1,441 o filltiroedd, gostyngiad o 96% ar 2019/20 (35,074 o filltiroedd).*

- **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW)**

Yn ogystal â'r gwaith rheoli a goruchwylio beunyddiol, bydd staff Gwasanaethau'r Campws yn cynnal Archwiliadau Safle Iechyd a Diogelwch ffurfiol i gadarnhau a monitro bod Contractwyr a staff cynnal a chadw'r Brifysgol yn gweithio'n ddiogel. Mae'r archwiliadau hynny'n ceisio cadarnhau nad oes neb yn cael ei roi mewn perygl oherwydd contractwr i Wasanaethau'r Campws a / neu weithgareddau cynnal a chadw.

Ailddechreuodd archwiliadau safle ffurfiol yn 2021/22, gyda **20** archwiliadau. *Ni chynhaliwyd archwiliadau ffurfiol y flwyddyn flaenorol.*




*Mae'r siart uchod yn dangos cyfanswm yr Archwiliadau Safle a gynhaliwyd, a % y rhai a arsylwyd fel rhai o Safon Dda, Rhoi Rhybudd neu Dor-amod Difrifol.*

***<u>Cofiwch:</u>*** Mae llai o gontractwyr yn gweithio ar y campws ac mae hynny i'w weld yn glir yn nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y pandemig. Mae'n debygol y bydd cynnydd mawr mewn archwiliadau safle yn 2022/23.

Yn ogystal, ac i annog arferion gwaith da ar y safle, mae pob Contractwr sy'n ymwneud ag ystadau yn cael dogfen Safonau Gwaith Contractwyr Gwasanaethau Campws. Mae'r ddogfen yn manylu ynghylch y safonau a ddisgwylir gan Gontractwyr sy'n gweithio yn y Brifysgol, y mae'n rhaid i bob Contractwr eu derbyn. Yn ystod y flwyddyn, cafodd **42** o Gontractwyr gwahanol y ddogfen honno a'i harwyddo.


Mae'n ofynnol hefyd i staff y Contractwr ymgymryd â Sesiwn Gynefino ynghylch safonau gwaith a diogelwch penodol Gwasanaethau'r Campws. Yna bydd modd trosglwyddo'r wybodaeth honno i weithwyr y Contractwr ei hun a'r is-gontractwyr. Yn 2021/22, darparwyd **70** o Sesiynau Cynefino neilltuol, a chafodd **202** o staff y contractwyr Sesiynau Cynefino ynghylch safonau a disgwyliadau'r Brifysgol, cynnydd mawr ar y blynyddoedd blaenorol nad oes cofnod ohonynt.

## 7. ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF

| | |
|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** (*diwrnodau/CALl*) |  |

Mae'r pandemig yn dal i effeithio ar y brif gyfradd absenoldeb salwch ac, yn benodol, gweithio gartref; sefyllfa a oedd yn gyffredin ledled y Sector.


Yn 2020/21, collwyd **6,159** o ddiwrnodau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch (a adroddwyd). Mae hynny'n gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch ymysg y staff o oddeutu **3.90** diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn[9] (3.87 diwrnod yn 2020/21). **6.4** diwrnod oedd Cyfartaledd y Sector yn Genedlaethol yn 2020/21, fel yr adroddwyd gan UCEA.




*Ar gyfer cyd-destun: Adroddodd y cymaryddion lleol, Cyngor Gwynedd,* ***10.7*** *fel cyfradd absenoldeb diwrnodau yn 2021/22 ac adroddwyd* ***8.73*** *gan Gyngor Ynys Môn (CALl). Ymhellach i ffwrdd, adroddodd Gwasanaeth Sifil Cymru* ***6.5*** *fel cyfradd absenoldeb yn 2020/21, ac adroddodd Gwasanaeth Sifil y Deyrnas Unedig* ***6.1*** *o ddiwrnodau. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio ar % yr amser a gollir oherwydd absenoldeb salwch ac yn amcangyfrif cyfradd y Deyrnas Unedig, ledled y farchnad lafur gyfan, ar* ***2.2%*** *yn 2021.*

**3.90 diwrnod** oedd Cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor yn 2021/22, sy'n cyfateb i golli oddeutu **1.79%** o'r amser gwaith[10] oherwydd absenoldeb salwch. **1.77%** oedd y gyfradd yn 2020/21.

[9]Seiliedig ar CALl ar gyfartaledd yn 2020/21 o 1580.805




Yn 2021/22 cadarnhawyd 77.5% (4,774 o ddiwrnodau gwaith, a addaswyd ar gyfer CALl) o'r holl absenoldebau salwch gan dystysgrif feddygol, ac roedd y gweddill sef 22.5% (1,385 o ddiwrnodau gwaith, a addaswyd ar gyfer CALl) yn rhai hunanardystiedig.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod gwaith, yn **57.12%** (3,518 o ddiwrnodau gwaith o absenoldeb, a addaswyd ar gyfer CALl) o'r holl ddiwrnodau o absenoldeb a adroddwyd, ac roedd gostyngiad o **21.1%** ar 2020/21.

| Canran yr absenoldeb oherwydd salwch hirdymor | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
| **Bangor** | 63% | 64% | 56.7% | 72.4% | 57.1% |
| **Sector** | 52.2% | 54.6% | 56.0% | 62.1% | 53.4% |

- **% STAFF A ADRODDODD AM ABSENOLDEB SALWCH**

Bu cynnydd bach yn nifer y Staff a adroddodd absenoldeb salwch yn 2021/22, sy'n dal yn sylweddol is na'r lefelau cyn y pandemig.

Adroddodd **419 aelod o'r Staff** *(cyfrif pennau)* absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. Mae hynny'n cyfateb i oddeutu **20.5%** o'r Staff. 18.14% oedd y gyfradd yn 2020/21, 26.23% yn 2019/20 a 28.91 yn 2018/19.

Felly gall y Brifysgol adrodd na adroddodd **79.5%** o'r staff yr un achos o absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn.

[10]Yn seiliedig ar flwyddyn waith o 260.715 diwrnod gwaith ar gyfartaledd

- **TABL ABSENOLDEB SALWCH MEINCNOD (UCEA)**

Mae'r adran hon, sy'n cyfeirio at adroddiad meincnod UCEA **2021/22**, yn darparu gwybodaeth sy'n cymharu Prifysgol Bangor â'r Sector cyfan, ac ag is-set y prifysgolion sy'n rhannu'r un **nodweddion** (Cyn-92) a **maint** (bach).

*Mae UCEA yn diffinio sefydliad fel un "bach" os oes ganddo lai na 2000 o weithwyr CALl.* Mae **10** sefydliad yn yr un 'is-set' â Phrifysgol Bangor.

| **ADRODDIAD UCEA 2021/22** | | Pob Sefydliad (100) Addysg Uwch | | Sefydliadau Addysg Uwch bach Cyn-92 (10) | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur (CALl) | Bangor (PB) | Meincnod | Safle PB | Meincnod | Safle PB |
| **Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd** (diwrnodau) | 3.9 | 6.4 | 6 | 6.9 | 1 |
| **% y diwrnodau gwaith a gollwyd** | 1.7% | 3.0% | 4 | 3.0% | 1 |
| **Cyfnod o absenoldeb ar gyfartaledd (diwrnodau)** | 8.8 | 6.7 | 84 | 6.3 | 9 |
| **Diwrnodau Gwaith Tymor Byr a Chanolig a gollwyd** (diwrnodau) | 1.8 | 2.9 | 5 | 3.2 | 1 |
| **% yr absenoldeb salwch hirdymor** | 57.1 % | 53.4 % | 65 | 56.3 % | 7 |

Mae'r canlynol yn grynodeb achos absenoldeb salwch **2021/22**, fel y darperir gan adroddiad meincnod UCEA.

| **Pob Absenoldeb Salwch** (tymor byr, canolig a hir) | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori Absenoldeb** | **Prifysgol Bangor** | Pob un (100) | Sefydliadau Addysg Uwch Bach Cyn-92 |
| **RESP** - Asthma a phroblemau eraill ar y frest/anadlol gan gynnwys niwmonia, broncitis, pliwrisi | 4.7% | 3.3% | 3.0% |
| **CNCR** - Canserau a thiwmorau (anfaelan a malaen) | 3.1% | 4.0% | 3.2% |
| **COLD** - Annwyd, peswch, ffliw | 4.0% | 7.7% | 6.4% |
| **DEGP** - Diabetes a phroblemau endocrin/chwarennol eraill (e.e. diabetes, thyroid, metabolig) | 0.5% | 0.2% | 0.1% |
| **ENTD** - Problemau llygaid, clust, trwyn, gwddf a deintyddol | 2.8% | 2.6% | 2.1% |
| **GNIT** - Anhwylderau cenhedlol-droethol a gynaecolegol, ac eithrio beichiogrwydd | 3.1% | 1.5% | 1.5% |
| **MIGR** - Cur pen, meigryn a'r system niwrolegol/nerfol | 2.1% | 3.4% | 2.5% |
| **MENP** - Symptomau'r menopos neu'r perimenopos | Adroddir ynghylch categori newydd yn 22/23 | | |
| **HEBL** - Anhwylderau'r galon, cylchrediad y gwaed a'r gwaed | 5.6% | 2.6% | 3.1% |
| **OPER** - Llawdriniaeth/adferiad/apwyntiad meddygol* | 0.0% | 5.4% | 5.4% |
| **INBP** - Anaf, llosgiadau a gwenwyno | 3.7% | 3.0% | 2.6% |
| **MNTL** - Iechyd meddwl gan gynnwys blinder, gwendid nerfol, camddefnyddio alcohol/cyffuriau | 30.4% | 26.4% | 25.9% |
| **MUSC** - Cyhyrysgerbydol, yn cynnwys problemau cefn/gwddf, twnnel y carpal, tendonitis | 10.2% | 8.3% | 11.3% |
| **INFC** - Clefydau heintus eraill (e.e. eryr) | 0.0% | 1.8% | 0.5% |
| **PREG** - Anhwylderau cysylltiedig â beichiogrwydd | 0.9% | 0.9% | 1.0% |
| **SKIN** - Anhwylderau'r croen | 3.1% | 0.4% | 0.5% |
| **STMC** - Problemau'r stumog / treulio / gastroberfeddol (e.e. chwydu, gastroenteritis, dolur rhydd) | 5.9% | 5.0% | 5.2% |
| **COVD** - Achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o Covid-19 | 16.5% | 13.6% | 13.0% |
| **OTHR** - Achosion hysbys eraill nad ydynt yn dod o dan y categorïau UCEA | 3.3% | 5.3% | 5.6% |
| **UNKN** - Achosion anhysbys/heb eu nodi ** | 0.0% | 4.6% | 7.3% |

** Am y cyfnod hwn ni fu Prifysgol Bangor yn cofnodi achosion, o dan gategori Adferiad Ôl-lawdriniaethol UCEA, oherwydd bod y categori salwch/cyflwr gwirioneddol yn cael ei ddefnyddio fel adlewyrchiad mwy ffeithiol o achos yr absenoldeb.*

## • CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnodau absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2021/22, o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny.

Nodir y daeth y rhan fwyaf o absenoldebau (tymor hir), **67%**, i ben o fewn cyfnod o 2 fis.


| Absenoldebau hirach nag 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2021/22 (cymharydd 2020/21, 2019/20, ac 2018/19) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfnod yr absenoldeb mewn Misoedd | Nifer yr Achosion 2018/19 | Nifer yr Achosion 2019/20 | Nifer yr Achosion 2020/21 | Nifer yr Achosion 2021/22 |
| <2 | 67 | 55 | 53 | 49 |
| <3 | 8 | 21 | 17 | 11 |
| <4 | 6 | 5 | 5 | 5 |
| <5 | 7 | 2 | 2 | 2 |
| <6 | 9 | 3 | 3 | 2 |
| <7 | 2 | 1 | 5 | 2 |
| <8 | 2 | 0 | 2 | 2 |
| <9 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| <10 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| <11 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| <12 | 0 | 0 | 0 | 0 |


## • ACHOSIAETH ABSENOLDEB SALWCH

**Cofiwch**: *Mae grwpiau achosiaeth yn cyfeirio fel arfer at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion absenoldeb hunanardystiedig (Hunanardystio). Fodd bynnag, mae data 2021/22 yn cynnwys tystysgrifau anfeddygol ar gyfer absenoldebau* ***hirach na 7 diwrnod****, oherwydd anhawster mynd i feddygfeydd yn ystod Covid-19.*


Unwaith eto gwelir mai salwch seicolegol ac achosion cyhyrysgerbydol sy'n gyfrifol am y canran mwyaf o absenoldebau yn ystod y flwyddyn.

Dyma ddosbarthiad y **diwrnodau a gollwyd** *(amser i ffwrdd)* ar gyfer prif gategorïau achosion absenoldeb[11].




Roedd achosiaeth absenoldebau hir dymor (niferoedd/digwyddiadau) fel a ganlyn:




[11] Fodd bynnag, mae data 21/22 yn cynnwys tystysgrifau anfeddygol ar gyfer absenoldebau hirach na 7 diwrnod, oherwydd anhawster mynd i feddygfeydd yn ystod Covid-19.

- **COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Mae'r tabl canlynol yn nodi 'Diwrnodau Cyfartalog' absenoldeb salwch fesul CALl[12] i bob Coleg a'r Gwasanaeth Proffesiynol, o'i gymharu â chyfartaledd y Brifysgol.

*Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer y mesuriad hwn yn ymwneud â 'phwynt mewn amser' ac mae'n cyfeirio at y rhai a gyflogid ar ddiwrnod penodol. O ddefnyddio methodoleg 'pwynt mewn amser', gwelwn fod cyfradd absenoldeb y Brifysgol yn is na'r gyfradd gyfartalog CALl Flynyddol o 3.9 diwrnod a adroddwyd, yn bennaf gan y bydd yn hepgor yr aelodau hynny o'r staff a allai fod wedi gadael y sefydliad yn ystod y flwyddyn.*

| **Coleg / Gwasanaeth Proffesiynol** | **CYFRADD** | **CYFRADD** ac eithrio tymor hir |
|---|---|---|
| Y Brifysgol | 3.79[12] | 1.63 |
| Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | 1.02 | 0.77 |
| Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | 1.71 | 0.81 |
| Gwyddorau Dynol | 3.18 | 1.16 |
| Canolfan Bedwyr | 3.77 | 3.77 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 1.38 | 1.11 |
| Y Gwasanaethau Digidol | 8.29 | 1.76 |
| Gwasanaethau Campws | 7.80 | 3.01 |
| Gwasanaethau Cyllid | 6.72 | 3.44 |
| Adnoddau Dynol | 1.20 | 1.20 |
| Marchnata, Cyfathrebu, a Recriwtio | 4.94 | 1.57 |
| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr | 6.22 | 3.78 |
| Undeb y Myfyrwyr | 0.92 | 0.92 |

***Cofiwch**: Byddwch yn ofalus wrth ddehongli prif gyfradd Diwrnodau/CALl adrannau llai o faint oherwydd gall absenoldebau hirdymor niferoedd bach iawn o staff effeithio ar yr ystadegau. Er mwyn ein helpu ni ddeall, cafodd ail golofn ei hychwanegu sy'n hepgor absenoldebau hirdymor.*

- **ABSENOLDEB SALWCH OHERWYDD COVID-19**

Adroddwyd y collwyd **1,018** o ddiwrnodau, a addaswyd ar gyfer CALl, oherwydd absenoldeb salwch a oedd yn ymwneud â COVID-19, a effeithiodd ar **137** o'r staff. Adroddodd **555** o aelodau o'r Staff y bu COVID-19 arnynt yn ystod y flwyddyn.

Roedd **6** o achosion o absenoldeb salwch tymor hwy (mwy nag 20 diwrnod) yn ymwneud â COVID-19 a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ac roedd y rheini'n cyfrif am **370.6** diwrnod o absenoldeb.

Priodolwyd cyfanswm o 771 diwrnod y flwyddyn flaenorol (2020/21) i bob achos o COVID-19, ac **83** o aelodau o'r staff yn adrodd am absenoldeb salwch cysylltiedig.

- **CADW GOLWG AR IECHYD**

Cafodd oddeutu 102 aelod o'r Staff Arolygon Iechyd i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd.

Rhoddir Arolwg, o wahanol fathau, i'r Staff os ydynt yn defnyddio offer sy'n dirgrynu ac sy'n agored i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i nifer o wyddonwyr ymchwil, staff technegol a staff sy'n cynnal tiroedd, gweithwyr shifftiau, gyrwyr sydd ar gontractau a rhai sy'n trin anifeiliaid.

Darperir Arolygon Iechyd yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai o risgiau'r gwaith yn effeithio'n andwyol ar eu hiechyd, ac yn 2021/22 ailddechreuwyd arolygon iechyd wyneb yn wyneb.

Ni nodwyd dim effeithiau niweidiol ar iechyd yn 2021/22.

[12] Mae'r data hwnnw'n seiliedig ar staff a gyflogid ar **bwynt mewn amser**, sef 29 Gorffennaf 2022

## 8. LARYMAU TÂN YN CANU:


**DANGOSYDD PERFFORMIAD**



Mae ystad y Brifysgol yn meddu ar fwy na chant o adeiladau. Caiff y mwyafrif eu diogelu gan systemau canfod tân awtomatig a larymau tân. Mae tua 9,000 o synwyryddion mwg/gwres wedi'u gosod ledled yr ystad.


Yn 2020/21 bu 143 o achosion o larymau tân yn canu yn adeiladau'r Brifysgol, cynnydd o **46%** ar y 98 yn 2020/21. Mae cyfradd canu larymau tân (nad ydynt yn danau) wedi cynyddu'n sylweddol, gan achosi peth pryder.

Larymau Tân yn Canu 2012 – 21/22




Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru **28** gwaith, cynnydd ar y 22 gwaith yn 20/21. Roedd **27** o'r achlysuron hynny (*21 yn 20/21*) i Neuaddau Preswyl gyda'r nos ac yn yr oriau mân (rhwng 8pm ac 8am).

Gellir is-rannu cyfanswm yr achlysuron (143) i ddynodi faint o weithiau y canodd y larymau yn yr Adeiladau Preswyl a'r Adeiladau Academaidd/Gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystad y Brifysgol.





Bu cynnydd yn y nifer o weithiau y canwyd larwm tân mewn Adeiladau Academaidd a Gweinyddol i **72** yn 2021/22 o 36(20/21). Bu cynnydd yn yr achlysuron o ganu larymau tân yn y Neuaddau Preswyl i **71** yn 21/22, o 62(2020/21), 41(2019/20), 52(2018/19), 59(2017/18). Bu 11 achos maleisus yn 2021/22.

Cyfradd Canu Larwm Tân / 1000 o synwyryddion

| Ystad | 20/21 | Tuedd |
|---|---|---|
| Neuaddau Preswyl[13] | 16.4/1000 | I fyny |
| Academaidd a Gweinyddol[14] | 15.6/1000 | I fyny |

*Mae'r cynnydd cyfanswm yr achosion o ganu larwm yn peri pryder ac mae achosion o ganu larwm yn cael eu monitro'n fanwl i nodi tueddiadau achosion.*

Larwm Tân yn Canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely - Bangor[15]




| | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bangor** | 33 | 25 | 22 | 20 | 17.6 | 13.9[16] | 24 | 28.7 |

*Nid yw data'r cymaryddion cenedlaethol ar gael bellach

[13]Yn seiliedig ar 4335 o synwyryddion mewn Neuaddau
[14]Yn seiliedig ar 4630 o synwyryddion mewn adeiladau Academaidd
[15]Yn seiliedig ar 2471 o ystafelloedd gwely

[16] Yn 2019/20 defnyddiwyd y ffigur o 2960 o ystafelloedd gwely

- **TANAU**

Roedd 2 dân mewn neuaddau: roedd 1 yn ymwneud â chegin myfyrwyr lle taniodd 'saim' popty, ac achosi i faneg popty a lliain sychu llestri fudlosgi, a'r llall yn ymwneud â choginio heb oruchwyliaeth. Deliodd y Gwasanaeth Tân ac Achub â'r ddau ddigwyddiad.

Bu 6 o danau a 'fu bron â digwydd', a ddiffinnir fel digwyddiad “y bu mwg yn unig a dim fflamau”. Roedd 4 o'r rheini mewn Neuaddau, 3 oherwydd digwyddiadau coginio ac 1 oherwydd ysmygu mewn coridor.

Ni fu dim ‘tanau’ mewn adeiladau Academaidd/Gweinyddol, er bod 2 ddigwyddiad yn ymwneud â ‘thân’ sy’n unol â diffiniad cenedlaethol tân: roedd 1 digwyddiad yn ymwneud â mwg tost oedd yn llosgi a’r llall oherwydd peiriant mwg Cymdeithas Drama’r Myfyrwyr, a oedd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'u perfformiad.

## 9. HAWLIADAU SIFIL (IECHYD A DIOGELWCH / SY’N YMWNEUD Â DIGWYDDIAD)

Yn 2021/22 roedd **2** Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus, y ddau’n ymwneud ag is-gwmnïau a berchenogir yn llwyr. 1 ar ôl i ymwelydd dorri bys ei droed ar ôl ei daro ar riniog drws ystafell wely yn y Ganolfan Reolaeth. Roedd y llall yn ymwneud â difrod i gerbyd oherwydd gwrthdrawiad â bolard Rheoli Mynediad i Gerbydau yn M-SParc.

Yn ogystal, derbyniwyd 2 Hawliad Atebolrwydd Eiddo. 1 yn ymwneud â difrod i Bolard Mynediad Cerbydau M-SParc a’r hawliad arall, sylweddol, i dalu costau adnewyddu Cromen Canolfan Brailsford, a ddinistriwyd mewn gwyntoedd cryfion.

## 10. YSTADEGAU’R WEFAN

Yn 2021/22 edrychwyd ar 25,215 **(+39)** o dudalenau unigol ar wefan Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal â’r dudalen gartref a’r mynegai A-Y, y 3 tudalen fwyaf poblogaidd yr ymwelwyd â nhw oedd:

- COVID-19
- Asesiadau Risg
- Lleoliadau

**Diwedd.**